

Adnodd yn seiliedig ar
bwnc **Dinasyddiaeth**
Fyd-eang

Gwaelod Cyfnod Allweddol



Eco-Schools



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

3 IECHYD A
LLESYNT DA



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidi

Gwybodaeth gefndirol

Yn fwy nag erioed o'r blaen, mae pawb ohonom wedi ein cysylltu â phobl a'r amgylchedd yng ngweddill y byd. Mae technoleg fodern yn ein caniatáu i gyfathrebu yn hawdd â phobl eraill ar draws y byd drwy bwysu botwm. Rydym wedi ein cysylltu drwy'r bwyd rydym yn ei fwyta, y dillad rydym yn eu gwisgo a'r cynnyrch rydym yn dewis ei brynu. Golyga trafndiaeth y gallwn deithio o amgylch y byd ar wyliau, at ddibenion gwaith, i weld ffrindiau a theulu.

Mae dysgu i fod yn ddinasyddion byd-eang cyfrifol yn gofyn i blant ddeall yr angen i ystyried yr effaith y bydd eu penderfyniadau yn ei chael ar yr amgylchedd a phobl o amgylch y byd a sut y gall eu gweithredoedd wneud gwahaniaeth. Mae'r byd yn teimlo fel pe bai'n mynd yn llai, ond eto mae gwahaniaeth mawr rhwng gwledydd cyfoethog a'r rheiny yn y byd sy'n datblygu. Mae'n hanfodol ein bod yn cyflwyno safbwynt cytbwys i blant o sut mae'r byd yn gweithio, sut maent yn ffitio yn y byd hwnnw a bod nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhyngddynt a phlant ar draws y byd.



Safbwynt hinsawdd

Newid yn yr hinsawdd yw'r newid mewn patrymau tywydd ar draws y byd, y cyfrannir ato gan weithgareddau dynol megis datgoedwigo a llosgi tanwydd ffosil. Mae'r rhain yn arwain at ryddhau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill i atmosffer y Ddaear. Creda gwyddonwyr fod y gweithgareddau hyn yn cyfrannu at gynhesu byd-eang.

Mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael effaith ar fywydau plant yn fyd-eang, ac yn anghyfartal ar y rheiny sy'n byw mewn gwledydd llai datblygedig yn economaidd, gan effeithio ar eu

sicrwydd bwyd, mynediad at ddŵr, aer glân, addysg a gofal iechyd. Mae effeithiau patrymau tywydd newidiol yn achosi cynnydd yn lefel y môr, llifogydd, sychder a llygredd dŵr, bob un ohonynt yn peryglu iechyd a llesiant plant, ac yn y pen draw, eu dyfodol.

Mae gennym gyfrifoldeb byd-eang i helpu cenedlaethau'r dyfodol i ofalu am, ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol a deall heriau newid yn yr hinsawdd drwy addysg.

"No one will protect what they don't care about; and no one will care about

what they have never experienced,"
David Attenborough.

Cyfeiriannu


Cyfnod Allweddol 2 (Lefel Uwch)

Ôl troed Carbon

Mae'r gweithgaredd hwn yn gweld plant yn meddwl am benderfyniadau bob dydd y gall pawb ohonom eu gwneud i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Ein hôl troed carbon yw'r swm o nwy carbon deuocsid sy'n cael ei ryddhau i atmosffer y Ddaear o ganlyniad i'n gweithgareddau dyddiol. Bydd plant yn datblygu sgiliau darllen map, gwaith tîm a datrys problemau wrth symud o amgylch tir yr ysgol i ddod o hyd i gliwiau.

Deunyddiau sydd eu hangen:

- Cardiau Cyfeiriannu Ôl troed Carbon - wedi'u chwyddo ac argraffu neu wedi'u hysgrifennu ar fyrddau gwyn unigol
- Pegiau/llinyn
- Waledi plastig clir (i roi'r cardiau ynddynt os yw'n bwrw glaw)
- Map neu lun o'r awyr o dir yr ysgol neu ardal fesul grŵp wedi'i farcio gyda niferoedd i ddangos lle mae cliwiau wedi'u lleoli. Gallai plant greu eu map eu hunain fel gweithgaredd ymlaen llaw.
- Papur sgrap wedi'i rifo 1-10
- Pensiliau/pinnau ysgrifennu
- Clipfyrddau
- Tarpolin neu gynfas gwely dwbl



Cam 1



Pegiwch y cliwiau o amgylch yr ardal rydych am ei defnyddio fel y dangosir ar y map o dir eich hysgol.

Cam 2

Siaradwch am beth yw ôl troed carbon a sut y gallwn wneud gwahaniaeth i'r swm o garbon sy'n cael ei ryddhau i atmosffer y Ddaear drwy'r penderfyniadau a wnawn. Gofynnwch i'r plant feddwl am enghreifftiau o sut y gallent ddefnyddio ynni ac adnoddau, a ydynt yn gwybod am unrhyw ffyrdd o arbed ynni a gwneud penderfyniadau cynaliadwy, mwy cyfeillgar i'r amgylchedd ynghylch adnoddau?

Rhannwch y plant yn dimau, gan weithio gydag oedolyn ar gyfer cymorth lle bo'n angenrheidiol, eglurwch fod cliwiau wedi'u cuddio o amgylch tir yr ysgol a bydd angen iddynt ddefnyddio'r map i ddod o hyd iddynt.

Ewch ati i gyfeiriannu'r map fel y gall y plant ddilyn y cyfarwyddyd maent yn ei weld ar y papur ac adnabod nodweddion allweddol megis adeiladau, coed, offer chwarae.

Cam 3



Rhowch rif gwahanol i bob grŵp ddod o hyd iddo bob tro. Pan fyddant yn dod o hyd i'r cerdyn, mae'n rhaid iddynt ddarllen y datganiadau, penderfynu pa opsiwn sy'n cynrychioli'r dewis mwyaf cyfeillgar i'r amgylchedd a nodi'r llythyren wrth ymyl y datganiad hwnnw wrth ymyl y rhif cyfatebol ar eu papur sgrap.

Cam 4

Dylai'r timau ddychwelyd i'r dechrau ar ôl dod o hyd i bob cliw i gael eu rhif nesaf nes bod bob tîm wedi dod o hyd i bob un o'r cliwiau. Wedyn dylai fod 7 llythyron ganddynt i wneud gair.

Y gair yw H I N S A W D D

*Os nad yw'r plant wedi dewis y datganiad cywir, ni fydd ganddynt yr holl lythrennau cywir i greu'r gair ac efallai y bydd angen cymorth arnynt.

Cam 5

Casglwch yr holl gardiau cliwiau a siarad am ba opsiwn datganiad oedd yn gywir a pham, gan adnabod a thrafod unrhyw gamsyniadau.

Gweithgaredd dilynol - Gêm pengwiniad ar rewfryn (iceberg)



Gosodwch darpolin neu hen gynfas ar y llawr a gwnewch i'r plant (neu grŵp ar y tro) sefyll ar ei ben. Pengwiniad ar rewfryn ydynt, felly dylent siglo cerdded gyda'u traed at ei gilydd a breichiau wrth eu hochrau. Dewiswch nifer fechan o blant i fod yn forfilod danheddog sy'n 'nofio' o amgylch y rewfryn yn disgwyl am damaid. Dylai'r pengwiniad geisio aros ar y rewfryn gydol yr amser neu wynebu'r risg o gael eu bwyta gan forfil danheddog yn y dŵr.

Mae'r rewfryn yn toddi oherwydd cynhesu byd-eang a achosir gan garbon yn cael ei ryddhau i'r atmosffer, felly mae'n rhaid i'r grŵp weithio fel tîm i blygu'r tarpolin yn hanner heb neb yn camu i'r 'dŵr'. Ar ôl iddynt gwblhau'r dasg, gallant siglo cerdded eto. Mae'r rewfryn yn dal i doddi felly mae angen iddynt blygu'r tarpolin eto hyd nes y maent wedi closio at ei gilydd ac mae rhai yn disgyn oddi arno gan nad oes digon o le.

Trafodwch y ffaith y gall ein gweithredoedd a phenderfyniadau fel bodau dynol gael effaith ar yr amgylchedd naturiol, e.e. pa mor gyflym y bydd y rewfrynau yn toddi, felly dylem wneud penderfyniadau da a pheidio â gwastraffu ynni ac adnoddau os yw'n



ei

bosibl.

* Mae'n bwysig pwysleisio nad oes gan blant lais yn y penderfyniadau a wneir yn eu cartref neu deulu bob amser, ond y gall hyd yn oed y pethau bychain a wnawn, gyfrannu at wneud gwahaniaeth.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Meysydd Dysgu a Phrofiad - Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau Phenomena.

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Meysydd Dysgu a Phrofiad - Y Dyniaethau

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig: Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Camau nesaf a syniadau eraill

- Cynnal ymchwiliadau iâ yn toddi
- Cyfrifo ôl troed carbon yn <https://footprint.wwf.org.uk/#/>
- Dysgu mwy am effaith cynhesu byd-eang ar fodau dynol
- Ymchwilio i sut mae rhywogaethau neu gynefinoedd gwahanol yn cael eu heffeithio gan newid yn yr hinsawdd
- Bod yn Archarwr sy'n Gweithredu dros yr Hinsawdd
<https://www.un.org/sustainabledevelopment/student-resources/>

1



Rydych yn golchi eich dannedd, dylech geisio...

...diffodd y tap ar ôl i chi orffen **Y**

...diffodd y tap pan nad ydych yn defnyddio'r dŵr **L**

2



Rydych yn byw ger yr ysgol, ond rydych bob amser yn hwyr, dylech geisio...

...mynd yn y car neu dacsï, dim ond taith fer ydyw **O**

...cynllunio i godi'n gynt mewn pryd i gerdded neu ddefnyddio'r sgwter **B**

3



Rydych yn gadael yr ystafell ac nid oes neb ynnddi, dylech geisio...

...gadael y golau ymlaen fel nad yw'n dywyll pan ddewch yn ôl **M**

...diffodd y golau tra mae'r ystafell yn wag **N**

4



Rydych yn oer gartref, dylech geisio...

...rhoi'r gwres ymlaen ar y gosodiad uchaf i'ch cynhesu'n gyflym **J**

...rhoi siwmpwr ymlaen neu haen arall o ddillad i helpu eich corff aros yn fwy cynnes **A**

5



Rydych yn helpu i olchi eich dillad, dylech geisio...

...eu hongian ar y lein ddillad neu hors **I**

...eu rhoi yn y peiriant sychu dillad ar y gosodiad cyflymaf i'w sychu mor gyflym â phosib **R**

6



Rydych yn mynd allan am y diwrnod, dylech geisio...

...llenwi potel ddŵr gartref a mynd â hi gyda chi **G**

...prynu potel ddŵr tra rydych allan fel nad oes rhaid i chi ei chario drwy'r dydd **A**

7



Mae gennych deganau a gemau nad ydych yn chwarae gyda nhw rhagor, dylech geisio...

...eu cuddio, maent yn codi cywilydd arnoch pan mae eich ffrindiau yn dod draw **G**

...eu rhoi i rywun ieuengach neu eu gwerthu mewn sêl cist car **T**

8



Rydych yn disgyn ac yn cael twll ym mhen-glin eich trowsus, dylech geisio...

...eu rhoi i rywun arall eu gwisgo **D**

...gofyn i rywun eu trwsio neu eu defnyddio i wneud rhywbeth arall **S**

9



Rydych wedi clywed am lyfr newydd yr hoffech ei ddarllen, dylech geisio...

...gofyn a yw ar gael yn eich llyfrgell leol neu ei fenthyg gan ffrind **S**

...ei archebu ar-lein fel ei fod yn cael ei anfon i'ch cartref y diwrnod canlynol **C**

10



Mae gennych sbarion bwyd ar ôl helpu i baratoi pryd, dylech geisio...

...eu rhoi yn y bin casglu gwastraff bwyd neu fin compost yr ardd os na allwch eu defnyddio ar gyfer unrhyw beth arall **U**

...eu taflu i'r bin ar unwaith **V**



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13

Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850

